



Cynnwys

Y prif
ganfyddiadau

Sefyllfa'r genedl

Y farchnad gathod

Gofal milfeddygol

Gofal, lles ac
ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

Cathod, yn gryno

Beth nesaf?

Gwasanaethau

Adroddiad CATS

Cathod a'u Hystadegau
Cymru 2026





Cynnwys

4	Methodoleg	28	Gofal, lles ac ymddygiad cathod
5	Croeso	28	Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod
6	Y prif ganfyddiadau	32	Amgylchedd cathod
8	Sefyllfa'r genedl	36	Ymddygiad a straen
8	Y boblogaeth gathod	37	Tân gwyllt
9	Perchnogaeth cathod ar aelwydydd ledled y DU	38	Cwmnïaeth
10	Proffil y perchnogion cathod	40	Cathod, yn gryno
14	Y farchnad gathod	42	Beth nesaf?
14	Pa fath o gathod sydd gan bobl?	43	Gwasanaethau
16	Sut mae cathod yn cael eu perchnogi		
18	Gofal milfeddygol		
18	Capasiti milfeddygol		
19	Cofrestru â milfeddyg		
19	Ymweliadau â milfeddyg		
21	Microsglodynnu		
24	Ysbaddu a bridio		
25	Yswiriant a gofal iechyd ataliol		
26	Iechyd a deiet		



Cynnwys

Y prif ganfyddiadau

Sefyllfa'r genedl

Y farchnad gathod

Gofal milfeddygol

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

Cathod, yn gryno

Beth nesaf?

Gwasanaethau

Methodoleg

Am y seithfed flwyddyn yn olynol, rydyn ni wedi comisiynu asiantaeth allanol ac annibynnol, Basis Research, i wneud y gwaith ymchwil sy'n rhan o *Adroddiad CATS Cymru 2026*.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth ymysg cynulleidfa genedlaethol yn cynrychioli oedolion dros 18 oed yng Nghymru er mwyn i ni amcangyfrif cyfran y perchnogion cathod yn y wlad. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg manylach ymysg perchnogion cathod. Cafodd hyn ei wneud rhwng 24 Chwefror 2026 ac 16 Ebrill 2026. Mae 'yn ystod y 12 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod o amser rhwng Mawrth 2025 a Mawrth 2026. Oni bai y nodir yn wahanol, mae data cymharol yn yr arolwg hwn yn defnyddio data o *Adroddiad CATS Cymru 2025*.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys sampl oedd yn cynrychioli poblogaeth y DU o 3,511 o unigolion a hwb o 6,422 o berchnogion cathod, gan gynnwys hwb rhanbarthol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol yn yr ardaloedd hyn. Ar y cyfan, fe wnaeth 10,599 o bobl gymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys 847 o berchnogion cathod yng Nghymru.

Cyflwyno'r data

Rydyn ni'n gweithio gyda Basis Research er mwyn cyfrifo amcangyfrifon o'r boblogaeth gathod yn flynyddol. Defnyddir tair ffynhonnell ddata yn y cyfrifiad hwn:

- panel arolwg ar-lein sy'n cynrychioli'r genedl i bennu canran yr aelwydydd yn y DU sy'n berchen ar gath (n=3,511)
- data o'r arolwg o berchnogion cathod ar nifer y cathod y mae pob aelwyd yn berchen arnynt
- data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar nifer yr aelwydydd

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Oherwydd talgrynnu, bydd adegau yn yr adroddiad pan nad yw'r cyfrifiadau canran yn adio i 100%. Mae ffigurau eraill, megis amcangyfrifon o'r gyfran o gathod yn y boblogaeth, wedi'u talgrynnu i ddau ffigur ystyrion. Wrth gyfrifo amcangyfrifon cathod, rydyn ni wedi defnyddio cyfanswm yr amcangyfrif o'r boblogaeth o gathod ac wedi'i luosi gyda'r ganran gyfan, er enghraifft nid yw 10% o'r holl berchnogion cathod wedi cofrestru'r gath gyda milfeddyg, sydd gyfwerth â 46,000 o gathod. Mae'r ystadegau a chyfrifiadau'r boblogaeth yn amcangyfrifon ar sail ymatebion perchnogion i'r arolwg ar-lein.

Cynhelir profion arwyddocâd o'r data ar gyfyngau hyder 99% a 95%. Pan fydd canfyddiad yn cael ei nodi'n arwyddocaol yn yr adroddiad, mae wedi cael ei ystyried yn arwyddocaol ar gyfwng hyder 95%.

Cael cath: Drwy gydol yr adroddiad byddwn yn edrych ar ba mor ddiweddar y cafodd cathod eu perchnogi, yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â chyfnod arall, er enghraifft dros flwyddyn yn ôl. Mae'r data yn dod o'r cwestiwn 'Pryd wnaethoch chi gael cath?' yn Arolwg Ymchwil CATS 2026.

Sampl sy'n cynrychioli'r genedl: Y boblogaeth sydd o ddiddordeb i ni yw poblogaeth gyfan y DU. Roedd y sampl sy'n cynrychioli'r genedl yn adlewyrchu ei strwythur, gan gynnwys rhywedd, oedran, grwpiau economaidd-gymdeithasol a rhanbarthau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais yma stats@cats.org.uk

Croeso i Adroddiad Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2026

Hoffwn groesawu pawb i *Adroddiad CATS 2026* gan Cats Protection, ein seithfed arolwg cynhwysfawr sy'n edrych ar fyd diddorol cathod yn y DU. Mae'r adroddiad yn rhoi cipolwg i ni ar sefyllfa newidiol y boblogaeth cathod a sut dylem ymateb i dueddiadau a heriau sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol i lawer o bobl eraill, gan gynnwys y llywodraeth, er mwyn llunio eu polisiau a'u dulliau gweithredu. Mae lles anifeiliaid yn gyfrifoldeb datganoledig. O'r herwydd, rydym wedi mynd ati'n fwriadol i gasglu data y gellir adrodd arno ar draws pedwar rhanbarth y DU.

Mae bod yn filfeddyg yn destun balchder personol ac rwy'n falch o weld bod milfeddygon yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ddibynadwy i lawer o berchnogion. Mae dylanwad cynyddol ffynonellau ar-lein yn gallu ei gwneud yn anoddach i berchnogion gael gafael ar wybodaeth gredadwy. Fodd bynnag, argymhellion gan filfeddyg yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyd o annog perchnogion i weithredu ar hanfodion gofal i gathod, fel gofal iechyd ataliol, ysbaddu, gosod microsglodyn ac ymddygiad. Mae cyngor dibynadwy gan dimau milfeddygol yn helpu perchnogion i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal eu cathod, gan gyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles gwell. Fodd bynnag, mae'n siom clywed am drafferthion rhai perchnogion cathod o ran gallu cael gafael ar gymorth milfeddygol, ond rwy'n obeithiol y bydd datblygiadau parhaus yn y proffesiwn yn helpu pobl i gael cyngor a gofal yn haws yn y dyfodol.

Mae lles cathod yn dal wrth galon popeth a wnawn yn Cats Protection, gyda chydabyddiaeth gynyddol o'r manteision mae cathod yn eu cynnig i lesiant pobl. Mae cathod yn gwneud anifeiliaid anwes gwych ac maent yn ffynhonnell o lawenydd i lawer o bobl, gan gynnig cymorth dyddiol yn enwedig ar adegau anodd. Serch hynny, rhaid i'r berthynas fod yn un ddwy-ffordd, gyda gofalwyr yn meddwl am sut gallant hefyd ddiwallu anghenion eu cathod, er enghraifft drwy ddarparu lleoedd i ddringo neu guddio. Mae gofalu am les cathod yn dechrau o'r dechrau. Dylid gwneud yn siŵr bod cathod yn dod o ffynonellau moesegol, gydag anghenion lles y fam a'r tad magu a'r cathod bach bob amser yn hollbwysig. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod mwy o berchnogion eisiau i'w cathod gael cathod bach (sef un o'r rhesymau dros beidio â'u hysbaddu), ond mae

cyfrifoldeb mawr ynghlwm wrth ofalu am y fam feichiog a dod o hyd i gartrefi da i'r cathod bach. Wrth chwilio am gath i'w phrynu ar-lein, dylai pob un ohonom fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o niwed o ran lles.

Diolch byth, mae mwy a mwy o berchnogion yn ymchwilio i anghenion eu cathod, gydag addysg yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o atal llawer o'r pryderon lles rydym yn eu gweld. Fodd bynnag, nid yw'r holl wybodaeth yn gywir a gall camwybodaeth weithiau arwain at ganlyniadau gwael i gathod. Mae gan Cats Protection rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod y rheini sy'n gofalu am gathod yn gallu cael arweiniad arbenigol dibynadwy sy'n cefnogi lles da i gathod. Fel popeth arall, mae angen i'n penderfyniadau ystyried yr agweddau cadarnhaol a negyddol. Er enghraifft, er bod cadw cathod dan do yn gallu lleihau risgiau fel damweiniau ffordd, mae'n cynyddu'r angen i ddarparu amgylchedd corfforol a seicolegol ysgogol yn y cartref sy'n galluogi cathod i ymddwyn yn naturiol. Un apêl olaf gen i wrth ddewis cath, cofiwch y bydd eich ffrind gorau yn fwy na dim ond rhywbeth sy'n edrych yn dda ar gyfryngau cymdeithasol, bydd yn gath sy'n addas i chi, eich cartref a'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. I gael cath hapus mewn cartref hapus, mae'n hanfodol rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd iddi, meithrin ei sgiliau cymdeithasol, sicrhau bod y gath wedi'i bridio'n gyfrifol er lles ac iechyd, a rhoi pob cyfle iddi addasu'n hyderus i fywyd yn ei chartref neu amgylchedd newydd.

Mwynhewch ddarllen yr adroddiad a gobeithio y bydd y wybodaeth yn ddiddorol ac yn pricio'r meddwl.

Kit Sturgess VetMB, PhD, DSAM, FRCVS
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr,
Cats Protection



Y prif ganfyddiadau

Sefyllfa'r genedl

- Mae 460,000 o gathod mewn perchnogaeth ledled Cymru
- Mae'r perchnogion hynny sydd dan 35 oed yn fwy tebygol o fod wedi cael cath yn ddiweddar
- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod

Y farchnad gathod

- Efallai fod y duedd gynyddol ym mhoblogrwydd cathod pedigri yn gwastatáu yng Nghymru
- Mae cyfran y cathod yng Nghymru a brynwyd yn parhau i gynyddu

Gofal milfeddygol

- Nid yw 46,000 o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg
- Mae bron i 125,000 o gathod Cymru heb ficrosglodyn o bosibl
- Mae niferoedd sy'n cael eu hysbaddu wedi gostwng ym mhob un o wledydd y DU ac eithrio Cymru, lle maent wedi aros yn sefydlog

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn ymchwilio mwy i anghenion eu cathod, ond nid yw dros hanner y perchnogion cathod pedigri wedi ymchwilio i'r materion iechyd a lles penodol sy'n gysylltiedig â bridiau o gathod
- Mae'n ymddangos bod mwy a mwy o gathod yng Nghymru yn byw bywyd dan do yn unig. Mae pryder perchnogion am niwed neu golled yn golygu cadw cathod yng Nghymru dan do
- Mae mwy o gathod yn profi straen o ganlyniad i dân gwyllt, o'i gymharu â'r llynedd

Cwmnïaeth


- Cwmnïaeth yw'r prif reswm o hyd pam mae pobl yn berchen ar gathod yng Nghymru



Sefyllfa'r genedl

Y boblogaeth gathod

Mae **22%** o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar gath.




Mae **460,000** o gathod mewn perchnogaeth ledled Cymru.

Nifer cyfartalog y cathod fesul aelwyd sy'n berchen ar gath yng Nghymru yw 1.6 cath, gyda 61% o aelwydydd ag un gath yn unig.



Perchnogaeth cathod ar aelwydydd ledled y DU


Mae'n ymddangos mai Lloegr sy'n sbarduno'r cynnydd cyffredinol mewn perchnogaeth cathod, lle mae cyfran yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod wedi gweld cynnydd sylweddol o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Nid yw rhanbarthau eraill y DU, gan gynnwys Cymru, yn dangos unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol ers ffigurau'r llynedd*.




*Ffynhonnell: cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholds?_gl

Proffil y perchnogion cathod



Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod.



Mae oedran perchnogion cathod Cymru wedi aros yn weddol debyg i'r llynedd.



Mae'r rhai dan 35 oed yn dal yn fwy tebygol o fod wedi cael cath yn ddiweddar.




Nid yw'r cynnydd cyffredinol yn nifer y perchnogion cathod sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ledled y DU i'w weld yng Nghymru.

Mae **24%** o breswylwyr mewn ardaloedd trefol yn berchen ar gath




Mae **17%** o drigolion ardaloedd gwledig yn berchen ar gath




Mae'r rhan fwyaf o berchnogion cathod yng Nghymru yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.

Mae **56%** yn berchnogion tai



Mae **44%** yn byw mewn llety rhent



Y farchnad gathod



Pa fath o gathod sydd gan bobl?

Cathod pedigri o'u cymharu â chathod bridiau pur

Brîd pur: Brîd penodol o gath a gynhyrchwyd drwy fridio penodol, ac mae'r ddau riant o'r un brîd.

Traws-frîd: Brîd o gath a gynhyrchwyd drwy fridio gyda bridiau gwahanol, er enghraifft, dwy gath brîd pur gwahanol neu gath brîd pur a chath nad yw'n frîd pur / cath brîd cymysg.


Pedigri: Cath brîd pur neu gath traws-frîd sydd wedi cofrestru gyda chorff llywodraethu, ac mae cofnod o'i llinach ar gael.

Brîd cymysg (moggy): Cath sy'n cael ei chreu drwy fridio annetholus fel arfer, ac nid yw'r gath yn frîd pur nac yn draws-frîd.

Yn yr adroddiad hwn, mae cathod pedigri a chathod bridiau pur wedi'u cynnwys yn y disgrifiad o 'bedigri'.

Mae'r gwastrataú o ran poblogrwydd cathod pedigri ledled y DU hefyd yn amlwg yng Nghymru.

- Cyfanswm y boblogaeth cathod anwes yng Nghymru
- Cyfanswm y boblogaeth cathod anwes yng Nghymru yn 2025
- Cathod a berchnogwyd yn y 12 mis diwethaf yng Nghymru



Sut mae cathod yn cael eu perchnogi

Mae cyfran y cathod yng Nghymru a brynwyd yn parhau i gynyddu.

Wedi'u prynu*



29% yn 2025, 24% yn 2024, 25% yn 2023, 23% yn 2022, 21% yn 2021

Wedi'u mabwysiadu o ganolfan achub / ailgartrefu / lloches anifeiliaid yn y DU



23% yn 2025, 24% yn 2024, 21% yn 2023, 26% yn 2022 a 2021

Wedi'u mabwysiadu gan gymydog/ffrind/teulu



18% yn 2025, 19% yn 2024, 21% yn 2023, 20% yn 2022, 19% yn 2021

Wedi'u canfod yn gathod strae a'u cymryd i mewn



9% yn 2025, 8% yn 2024, 10% yn 2023, 8% yn 2022, 10% yn 2021

Cath fach gan gath a oedd eisoes ar yr aelwyd



6% yn 2025 7% yn 2024, 6% yn 2023, 6% yn 2022, 7% yn 2021

Wedi'u cael o ffynonellau eraill**



Cafodd **14%** o boblogaeth bresennol cathod yng Nghymru eu perchnogi yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cyfateb i dros **64,000** o gathod.


“Er ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer y perchnogion sy’n prynu cathod, mae mabwysiadu’n parhau i fod yn ffordd boblogaidd o gaffael anifail anwes yng Nghymru. Felly, mae’n hanfodol bod darpar berchnogion yn gallu ymddiried bod sefydliadau ailgartrefu yn gyfreithlon ac yn cymryd lles anifeiliaid o ddifrif. Mae Cats Protection yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid. Bydd creu set o safonau gofynnol y mae’n rhaid i sefydliadau ac unigolion sy’n gofalu am anifeiliaid eu dilyn yn helpu i sicrhau bod triniaeth, gofal ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i gathod sy’n aros i gael eu hailgartrefu.

“Bydd system drwyddedu hefyd yn rhoi hyder i ddarpar fabwysiadwyr eu bod yn mabwysiadu gan sefydliad sy’n cael ei reoleiddio’n briodol, gan ei gwneud yn haws canfod sefydliadau sy’n methu â bodloni’r safonau gofynnol a rhoi gwybod amdanynt. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynigion i reoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid.”




Alice Palombo,
Rheolwr Eiriolaeth a
Chysylltiadau Llywodraeth
ar gyfer y Gwledydd
Datganoledig,
Cats Protection

Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth bresennol cathod anwes Cymru lle mae:



Yn ystod y 12 mis diwethaf, **mae’r bwlch rhwng nifer y cathod a gafodd eu prynu a’r rhai a gafodd eu mabwysiadu yn ehangach.**



Er bod Cymru’n gwyro oddi wrth y DU gyfan gyda chynnydd parhaus yng nghyfran y cathod ‘wedi’u prynu’, mae cyfanswm y gyfran yn dal yn is, (cathod ‘wedi’u prynu’ y DU yn gyffredinol: 38%, ‘wedi’u prynu’ yn ystod y 12 mis diwethaf: 44%).

*Wedi'i phrynu gan friidiwr arbenigol yn y DU, wedi'i phrynu gan rywun rydw i'n ei adnabod sydd ddim yn friidiwr arbenigol, wedi'i phrynu gan gymydog / ffrind / aelod o'r teulu, wedi'i phrynu o siop anifeiliaid anwes, wedi'i phrynu gan friidiwr arbenigol o dramor. **Fy nghath wnaeth fy mabwysiadu i, wedi'i mabwysiadu gan elusen o dramor (y tu allan i'r DU), wedi'i rhoi i mi fel anrheg, gan unigolyn nad oeddwn yn ei adnabod yn eu cynnig am ddim. ***Wedi'i mabwysiadu gan gymydog / ffrind / teulu neu wedi'i darganfod fel strae a'i chymryd i mewn.

Gofal milfeddygol



Capasiti milfeddygol

Dywedodd **25%** o berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi cael trafferth cael gafael ar filfeddyg (26% yn 2025).

Er nad yw cael gafael ar wasanaeth milfeddygol yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers y llynedd, mae'n well na'r DU gyfan (30%). Nodwyd bod problemau o ran cael gafael ar filfeddyg yn uwch ymhlith perchnogion yng Nghymru sy'n 18 i 34 oed (39%), a'r rheini sydd wedi cael cath newydd yn y 12 mis diwethaf (39%).

Cofrestru â milfeddyg

Mae **90%** o gathod Cymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg.



Mae hyn yn golygu nad yw **46,000** o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg. Mae'n bwysig bod perchnogion yn deall y risgiau iechyd y mae eu cathod yn eu hwynebu a'u bod yn cael cymorth i geisio gofal milfeddygol priodol i'w lliniaru.

Ymweliadau â milfeddyg

Mae perchnogion o Gymru yn llai tebygol o fynd â'u cath at y milfeddyg fel mater o drefn bob blwyddyn o'i gymharu â'r DU gyfan (**60%** o'i gymharu â **67%**).



Mae hyn yn golygu efallai nad yw bron i **185,000** o gathod Cymru yn cael gofal arferol gan filfeddyg.

Atal neu ymyrryd yn gynnar â phroblemau iechyd yw'r ffordd orau nid yn unig o ddiogelu lles cathod ond hefyd boced y perchennog, gan fod cost gofal milfeddygol fel arfer yn uwch pan fydd clefydau'n datblygu o ran difrifoldeb a hyd.



Dywed **54%** o berchnogion Cymru nad ydynt yn ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y byddent yn dymuno.

(56% yn 2025)

Mae cost a straen i'r gath a/neu'r perchennog yn rhwystrau allweddol i berchnogion beidio ag ymweld â'r milfeddyg mor aml.

Y gost


25% (28% yn 2025)

Achosi gormod o straen i mi / fy nghath*

25% (24% yn 2025)

Mae cost rhwystr rhag mynd at y milfeddyg gyfer cyfran uwch o berchnogion cathod Cymru, yn fwy felly nag a welir ar draws gweddill y DU (25%).

*Nifer yr ymatebion sy'n ymwneud â'r themâu hyn.




Microsglodynnu

Mae 73% o gathod Cymru wedi cael eu microsglodynnu (74% yn 2025).

- Microsglodyn: 73%** (74% yn 2025)
- Dim microsglodyn: 22%**
- Perchnogion yn ansicr a oes gan eu cath ficrosglodyn ai peidio: 5%**

Mae'r niferoedd microsglodynnu yng Nghymru yn cyfateb i'r hyn a adroddwyd ledled y DU yn gyffredinol. **Mae hyn yn gadael bron i 105,000 o gathod yng Nghymru heb ficrosglodyn o bosibl**, gan leihau eu siawns o gael eu haduno â'u perchnogion pe baent yn mynd ar goll neu'n cael eu dwyn.



Y cathod sy'n llai tebygol o gael eu microsglodynnu

Yng Nghymru, mae perchnogion gwrywaidd (66%), perchnogion iau (18 i 34: 66%) a pherchnogion newydd (63%) yn llai tebygol o ficrosglodynnu eu cath.

Mae'r prif resymau pam mae perchnogion cathod yng Nghymru yn dewis peidio â microsglodynnu eu cathod yn ymwneud ag angen tybiedig.

Nid yw fy nghath yn mynd allan

24%

Nid yw fy nghath yn crwydro / yn mynd yn bell

23%

Gwneud microsglodynnu yn ofyniad cyfreithiol oedd yr ail reswm mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog perchnogion cathod yng Nghymru nad ydynt wedi microsglodynnu eu cath i wneud hynny (17%). Mae Cats Protection yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i ddilyn yr esiampl a ddarparwyd gan Loegr wrth wneud y newidiadau deddfwriaethol hyn, er mwyn helpu i ddiogelu lles mwy o gathod.





Microsglodion a chadw manylion yn gyfredol

Mae manylion **93%** o gathod sydd â microsglodyn yng Nghymru yn gyfredol.

Mae 85% yn dweud bod eu rhif ffôn yn gyfredol



Mae 83% yn dweud bod eu cyfeiriad presennol yn gyfredol



Mae 80% yn dweud bod eu cyfeiriad e-bost yn gyfredol



Nid yw 5% yn siŵr pa fanylion penodol sy'n gyfredol



Mae'n bosib bod gan tua 24,000 o gathod yng Nghymru ficrosglodyn sy'n cynnwys hen fanylion neu fanylion anghywir. Mae hyn yn golygu na fyddai'r microsglodyn yn effeithiol iawn wrth geisio dychwelyd y gath at ei pherchennog petai'n cael ei gwahanu oddi wrth ei theulu. Mae Cats Protection yn parhau i gyflwyno negeseuon allweddol am faterion pwysig, fel microsglodynnu, drwy sgysiau, sesiynau ac adnoddau addysgol.

“Yn anffodus, rydyn ni'n gweld gormod o gathod heb ficrosglodyn. Microsglodion yw'r ffordd fwyaf diogel a chyflym o aduno cathod â'u perchnogion. Heb un, mae'n ei gwneud yn anodd i ni ailuno cathod â'u teulu cariadus. Pan fydd cath heb ei microsglodynnu yn dod i mewn i'n gofal, mae'n rhoi baich ar ein tîm i geisio dod o hyd i'w pherchnogion, ac mae'n cymryd lle yn ein corlannau ar gyfer cathod sydd ein hangen fwyaf.

“Mae cathod sy'n eiddo i rywun ac heb ficrosglodyn hefyd yn oedi ein gwaith i reoli poblogaeth cathod fferal yn ddi-boen. Mae ein timau lleol yn cynnal rhaglenni trapio, ysbaddu a dychwelyd (TNR) ledled Cymru. Gall cathod anwes lleol heb ficrosglodyn achosi oedi i'r gwaith pwysig hwn.


“Mae gennym lawer o straeon llwyddiannus am ailuno perchnogion â'u cathod annwyl a gollwyd oherwydd bod ganddynt ficrosglodyn, ac roedd y manylion ar y sglodyn yn gyfredol. Mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno microsglodynnu gorfodol ar gathod anwes i sicrhau bod modd adnabod cathod sy'n eiddo i rywun a'u haduno â'u perchnogion”

Vicki Small,
Rheolwr Gweithrediadau
Cymunedol Rhanbarthol,
Cats Protection



Ysbaddu a bridio

Nid yw'r niferoedd sy'n cael eu hysbaddu yng Nghymru wedi newid ers y llynedd.



Er bod niferoedd ysbaddu yn uwch yng Nghymru o'i gymharu â'r DU gyfan (79%) ac nad ydynt yn dilyn y duedd am i lawr o un flwyddyn i'r llall fel a welir yn nata cyffredinol y DU, mae'r niferoedd ysbaddu yng Nghymru yn dal yn sylweddol is nag yn 2020 (90%).

Y cathod sy'n llai tebygol o gael eu hysbaddu

Mae perchnogion iau, rhwng 18 a 34 oed, yn llai tebygol o ysbaddu eu cathod (68%), o gymharu â 86% o bobl rhwng 35 a 54 oed, a 90% o'r rhai dros 55 oed. Mae perchnogion tro cyntaf Cymru hefyd yn llai tebygol o fod wedi ysbaddu eu cathod (63%), yn ogystal â chathod pedigri (73%).

Nid yw'r awydd i'w cathod gael cathod bach mor gryf fel rheswm i berchnogion Cymru ddewis peidio ag ysbaddu eu cathod o'i gymharu â'r DU gyfan (11% o'i gymharu â 18%). Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd yn rhwystr nodedig i berchnogion yng Nghymru, dywed 14% nad ydynt wedi ysbaddu eu cathod oherwydd nad ydynt yn gallu ei fforddio (DU: 10%).

Mae ysbaddu, ac yn enwedig 'ysbaddu'n bedwar mis oed' (ar neu cyn pedwar mis oed, pan fydd cathod yn dod yn weithredol o ran atgenhedlu) hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau poblogaeth gytbwys o gathod, sydd â chysylltiad cryf â gwell lles cathod*. Yng Nghymru, cafodd 18% o gathod wedi'u hysbaddu y driniaeth cyn eu bod yn bedwar mis oed (DU: 21%), y gyfradd isaf o holl wledydd y DU.

*McDonald J, et al. (2023) Cat: Empirical modelling of *Felis catus* population dynamics in the UK. PLOS ONE 18(7):e0287841. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0287841>

“Mae ysbaddu yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu lles cathod. Mae o fudd i gathod unigol ar yr un pryd â helpu i leihau nifer y cathod nad oes neb eu heisiau sy'n mynd i lochesi ac yn cyfrannu at boblogaethau cathod strae a fferal. Drwy ysbaddu cathod pan fyddant yn bedwar mis oed yn hytrach na chwe mis oed, mae mwy fyth o gyfle i atal beichiogrwydd heb ei gynllunio, lleihau nifer y cathod bach sydd angen cartrefi, a gwella lles cathod ledled y DU.

“Nid yw bridio cathod yn cael ei reoleiddio i raddau helaeth, sy'n golygu nad oes llawer o warchodaeth rhag bod cathod yn cael eu gorfridio neu gathod bach yn cael eu geni mewn amodau gwael. Mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau bridio cathod. Dylai trwydded fod yn ofynnol os bydd dau dorllwyth neu fwy o gathod bach yn cael eu bridio mewn cyfnod o 12 mis. Byddai hyn yn helpu i wella'r oruchwyliaeth ar fridio cathod ac yn rhoi mwy o amddiffyniad i gathod a chathod bach.”



Sarah Merrett, Pennaeth Ymgysylltu â Lles Cathod, Cats Protection

Yswiriant a gofal iechyd ataliol

Cyfran y cathod yng Nghymru sydd wedi'u hyswirio: **46%**
(46% yn 2025)

Cyfran y cathod yng Nghymru sydd â brechlynnau cyfredol: **75%**
(72% yn 2025)

Triniaeth chwain

Mor aml ag yr argymhellir gan filfeddyg



Mor aml â phosibl drwy gydol y flwyddyn



Triniaeth llyngyr

Mor aml ag yr argymhellir gan filfeddyg



Mor aml â phosibl drwy gydol y flwyddyn



Mae pryder cynyddol am halogiad amgylcheddol gyda pharasitleiddiaid a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, rheoli plâu a hefyd ar gyfer anifeiliaid anwes, yn golygu y dylid canolbwyntio'n briodol ar ddefnyddio'r cynhyrchion hyn yn gyfrifol ac mewn cyd-destun. Mae'n bwysig amddiffyn cathod a phobl rhag risg iechyd a lles parasitiaid ar yr un pryd â lleihau'r risg amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau meddylgar ynghylch pa gynhyrchion i'w defnyddio a pha mor aml i'w defnyddio, wedi'u teilwra i anghenion unigol pob cath a lefel risg parasitiaid.

Mae'r risg honno'n cael ei dylanwadu gan bethau fel oedran, a ydyn nhw'n mynd allan i'r awyr agored ai peidio, ac anifeiliaid anwes eraill yn y cartref. Mae hefyd yn bwysig bod perchnogion yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus ar gyfer defnyddio cynnyrch a gwaredu deunydd pecynnu. Milfeddyg yw'r person gorau i roi cyngor ar y dull gorau ar gyfer pob cath, felly mae'n galonogol gweld mai dilyn argymhelliad milfeddyg yw'r dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer llyngyr gan y grŵp mwyaf o berchnogion cathod.

Mae Cymru'n dal ar ei hôl hi o gymharu â'r DU gyfan o ran cyfraddau yswiriant (DU: 54%) a'r cyfraddau brechu diweddaraf (DU: 79%). Mae cyfraddau brechu yng Nghymru wedi gweld cynnydd cyson ers 2021, fodd bynnag (2021: 63%). Mae Cymru'n debyg i'r DU gyfan o ran amllder trin chwain a llyngyr.

“Yn ddiweddar, mae Cats Protection wedi adolygu a diweddarau ei brotocolau ar gyfer rheoli parasitiaid ar gyfer cathod yn ein gofal, er mwyn adlewyrchu dull mwy unigol, wedi'i deilwra, gyda'r nod o leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.”


Lucinda Alderton-Sell, Uwch Reolwr Milfeddygol Cymunedol, Cats Protection



* Mae'r opsiynau'n cynnwys: Dim ond yn ystod yr haf, pan fydda i'n cofio, unwaith y flwyddyn neu lai, ddim yn gwybod ac arall (rhoch fanylion).

Iechyd a deiet

Canfyddiadau perchnogion yng Nghymru o bwysau corff eu cathod.




Gall fod yn heriol i berchnogion asesu cyflwr y corff mewn cathod, sy'n debygol o egluro pam mae ffigurau gordewdra a adroddir gan filfeddygon a pherchnogion yn aml yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae ffynonellau dibynadwy o wybodaeth, a dangos a phortreadu'n rhagweithiol sut mae cath iach yn edrych ac yn teimlo gan filfeddygon, elusennau a'r cyfryngau yn ddefnyddiol i lywio gwybodaeth ac agweddau perchnogion.



Mae cathod Cymru yn cael eu bwydo mewn ffordd debyg i gathod ledled y DU.


Bwydo bob amser neu'n aml:




Mae poblogrwydd bwydo 'deiet amrwd' i gathod, er enghraifft cig, llysiau a/neu wyau heb eu coginio, wedi tyfu,^{1,2} gyda llw mawr o gynnyrch masnachol wedi dod ar y farchnad yn ystod y blyneddau diwethaf. Nid yw Cats Protection yn argymhell bwydo deiet amrwd i gathod, gan ei fod yn peri risgiau i iechyd cathod ac iechyd pobl. Gall bwyd amrwd i anifeiliaid anwes gynnwys bacteria niweidiol fel Salmonella ac E. coli, a hyd yn oed bacteria sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau a fyddai fel arfer yn cael eu lladd wrth goginio. Gall hefyd fod yn anodd sicrhau cydbwysedd priodol o faetholion gyda deiet wedi'i baratoi gartref, gan arwain at risg o glefyd maethol sylweddol. Felly, os yw cath yn mynd i gael ei bwydo â deiet amrwd, yr argymhelliad yw defnyddio cynnyrch cyflawn sydd wedi'i baratoi'n fasnachol yn benodol ar gyfer cathod. Mae addysg i berchnogion yn y maes hwn yn hollbwysig.

Cyflyrau iechyd ac anafiadau

Mae **81%** o berchnogion cathod Cymru yn dweud nad oes gan eu cathod gyflyrau iechyd sydd wedi cael diagnosis, sy'n debyg i'r llynedd (79%).



Dywedodd **22%** o berchnogion cathod Cymru fod eu cathod wedi cael eu hanafu ers iddyn nhw fod yn berchen arnynt. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anaf yw ymladd gyda chathod eraill (12%).




1. Hunter, A. R., a Murison, P. J. (2025). Pet Feeding Practices: A Survey of Dog and Cat Owners' Current Feeding Practices, Attitudes, and Motivations Within the UK. *Pets*, 2(2), 20. <https://doi.org/10.3390/pets2020020>

2. O'Halloran, C., et al. (2024) How and why pet cats are feed the way they are: a self-reported owner survey. *Journal of Feline Medicine and Surgery*, V. 26, Iss 2, Feb. doi.org/10.1177/1098612X231209894

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod


Mae llawer o berchnogion cathod yng Nghymru yn ymchwilio fwyfwy i anghenion cathod cyn ac ar ôl dod yn berchen arnyn nhw.



Er bod cyfraddau'r ymchwil yn is yn gyffredinol na'r DU gyfan, mae hyder perchnogion Cymru eu bod yn gwybod beth sydd orau i'w cath yn uwch na'r DU gyfan, sef 68% (DU: 66%). Fodd bynnag, gyda chamwybodaeth yn fygythiad cyson, efallai na fydd yr hyder hwn o reidrwydd yn arwain at well lles i'w cath.

Am y tro cyntaf, gofynnwyd i berchnogion cathod a oeddent wedi ymchwilio i'r materion iechyd a lles penodol sy'n gysylltiedig â gwahanol fridiau o gathod. Dywedodd 31% o berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi cael eu brechu, gan godi i 44% o'r rhai a gafodd eu cathod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd dros hanner perchnogion cathod pedigri Cymru (53%) wedi ymchwilio'n benodol i'r materion iechyd a lles sy'n gysylltiedig â bridiau o gathod.

Mae perchnogion yng Nghymru yn dal i droi at eu milfeddyg yn gyntaf fel prif ffynhonnell gwybodaeth am gathod.



Mae'n bosibl iawn y bydd cynnwys llwyfannau deallusrwydd artiffisial a gwefannau cymunedol ar-lein fel opsiynau newydd eleni yn egluro'r gostyngiad a welwyd ym mhoblogrwydd chwiliadau rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yn well gan berchnogion yng Nghymru y dechnoleg newydd hon na'r DU gyfan (AI: 16%, safleoedd cymunedol: 14%). Mae perchnogion iau yng Nghymru yn dal yn llai tebygol o droi at eu milfeddygon yn gyntaf am gyngor (18 i 34: 48%).

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio fel ffynonellau gwybodaeth am gathod yn dal yn boblogaidd ymysg perchnogion yng Nghymru.

YouTube (37% yn 2025, 32% yn 2024, 34% yn 2023, 33% yn 2022)



Facebook 29% yn 2025, 34% yn 2024, 31% yn 2023, 31% yn 2022)



TikTok (18% yn 2025, 19% yn 2024, 15% yn 2023, 16% yn 2022)



Instagram (20% yn 2025, 18% yn 2024, 16% yn 2023, 18% yn 2022)



Reddit (opsiwn newydd eleni)



X (9% yn 2025, 8% yn 2024, 10% yn 2023, 14% 2022)



Pinterest (7% yn 2025, 8% yn 2024, 6% yn 2023, 11% yn 2022)



Snapchat (5% yn 2025, 6% yn 2024 a 2023, 10% yn 2022)



LinkedIn (5% yn 2025 a 2024, 3% yn 2023, 9% yn 2022)



Y llynedd, ni chafodd y cynnydd ym mhoblogrwydd TikTok fel ffynhonnell wybodaeth am gathod ledled y DU ei gyfateb yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Cymru wedi profi effaith oedi, gyda data eleni yn gweld cynnydd ym mhoblogrwydd y llwyfan hwn ymysg perchnogion cathod Cymru, yn enwedig ymysg y rhai rhwng 18 a 34 oed (40%). Mae hyn, a phoblogrwydd parhaus YouTube ar draws pob grŵp oedran, yn ein hatgoffa o bwysigrwydd cynnwys fideo fel ffordd effeithiol o gyrraedd perchnogion cathod.

Y pum prif weithgaredd sy'n gysylltiedig â chathod y mae perchnogion o Gymru yn ymgymryd â nhw sawl gwaith yr wythnos neu fwy.

Siarad am gathod gyda fy ffrindiau/teulu



Gwyllo fideos doniol neu giwt o gathod ar-lein




Edrych ar luniau doniol neu giwt o gathod ar-lein



Edrych ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chathod



Gwyllo fideos yn rhoi gwybodaeth am gathod ar-lein



Yn gyffredinol, Facebook, YouTube, TikTok ac Instagram yw'r ffynonellau mwyaf poblogaidd o gynnwys sy'n gysylltiedig â chathod i berchnogion yng Nghymru. Ond i berchnogion iau rhwng 18 a 24 oed, mae Facebook yn llawer llai poblogaidd (18%, holl berchnogion cathod Cymru: 40%), gyda TikTok yn cael ei ffafrio'n sylweddol (63%, holl berchnogion cathod Cymru: 36%). Mae hyn yn unol â data ehangach y DU.



Amgylchedd cathod

Cathod dan do o'u cymharu â chathod awyr agored


Mae'n ymddangos bod mwy a mwy o gathod yng Nghymru yn byw bywyd dan do yn unig.

Maen nhw'n cael bod tu fewn a thu allan: 58%
(64% yn 2025)

Maen nhw bob amser yn aros tu mewn: 39%
(33% yn 2025)

38% ar gyfer y DU gyfan
51% ar gyfer perchnogion o Gymru rhwng 18 a 34 oed

Maen nhw bob amser yn aros tu allan: 3%
(3% yn 2025)



Mae pryder perchnogion yng Nghymru am eu cathod yn cael niwed neu'n diflannu yn golygu eu bod yn eu cadw nhw dan do.

Dyma'r pryderon:

Pryderu y byddant yn cael eu taro gan gerbyd
43%

Pryderu y byddant yn mynd ar goll
38%

Pryderu y cânt eu dwyn
32%

Pryderu y byddant yn cael eu niweidio gan bobl
31%

Pryderu am gael eu hanafu gan gathod eraill
28%

Pryderu am gael eu hanafu gan anifeiliaid (nid cathod eraill)
27%

Rwy'n credu y bydd fy nghath yn byw'n hirach os caiff ei chadw dan do
23%

Pryderu am glefydau/parasitiaid
19%

Roedd opsiynau ymateb eraill yn ymwneud â threulio mwy o amser gyda'u cath, roedd y risg i fywyd gwyllt a materion ymarferol fel oedran neu faterion iechyd yn eu cadw dan do yn llawer llai poblogaidd. Os yw cath yn cael ei chadw dan do yn unig, mae'n bwysig bod ei pherchennog yn ystyried ac yn diwallu ei hanghenion yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys yr agwedd seicolegol ar yr angen i gathod gael cyfleoedd i fynegi ymddygiadau arferol, fel crafu ac archwilio eu gofod yn fertigol. Mae cathod yn anifeiliaid a fyddai fel arfer yn sefydlu tiriogaeth graidd ac ystod cartref a fyddai'n cwmpasu sawl erw o dir. Gall cadw cathod dan do yn unig arwain at rai cathod yn teimlo'n rhwystredig, yn ddiflas neu'n isel oherwydd nad ydynt yn gallu dilyn eu greddf naturiol. Mae camwybodaeth sylweddol yn cael ei lledaenu am gathod yn cael mynediad i'r tu allan, gan gynnwys pa mor gyffredin yw dwyn cathod fesul poblogaeth cathod a'r risg gan anifeiliaid eraill. Nid oes gan gathod unrhyw ysglyfaethwyr naturiol yn y DU.



Cathod allan yn crwydro

Mae cyfran sylweddol o berchnogion cathod yng Nghymru yn defnyddio ategolion i fynd â'u cath allan.

Harnais cath




Gwarbac cath



Mae cathod yn rhywogaeth diriogaethol ac mae’n well ganddynt gael dewis sut maen nhw’n crwydro, boed hynny dan do neu tu allan. Mae llai na thraean (32%) o gathod yng Nghymru sydd yn cael bod dan do ac yn yr awyr agored heb unrhyw rwystrau, tebyg i’r DU gyfan (30%). Mae gan 31% fynediad i’r awyr agored yn ystod y dydd ond maent yn cael eu cadw i mewn dros nos (DU: 32%), mae 14% yn cael mynediad i’r awyr agored drwy fan caeedig yn yr awyr agored (DU: 18%) ac 8% yn mynd allan ar dennyn a harnais yn unig (DU: 11%). Gall harneisiau fod yn anghyfforddus i gathod ac atal yr ymateb i ddianc (er enghraifft, wrth ddod ar draws cŵn y tu allan). Gall teimlo’n gaeth waethygu straen cathod yn sylweddol. Cafwyd enghreifftiau hefyd o gathod yn dianc tra’n gwisgo harneisiau.

Pan fydd angen cludo cath (er enghraifft, ar gyfer ymweliad â’r milfeddyg), dylid defnyddio cludydd cathod diogel a chadarn sy’n hawdd ei lanhau a gyda’r top yn agor. Yn aml, nid yw gwarbac cath yn ddigon mawr i alluogi cath i eistedd na sefyll yn gyfforddus, ac mae’r ffenestri er mwyn i’r gath allu gweld allan yn tueddu i gynyddu straen arnynt*.




*cats.org.uk/cats-blog/what-type-of-carrier-is-best-for-my-cat


Cathod ac aelodau eraill o’r aelwyd

O’r aelwydydd yng Nghymru sy’n berchen ar gath:

Mae gan **39%** fwy nag un gath yn byw yno



Mae **38%** hefyd yn berchen ar gi



Mae gan 43% blant (dan 18 oed) sy’n byw gartref



O’r aelwydydd hyn, mae 58% o’r plant dan 10 oed



Mae rhyngweithio cymdeithasol arferol yn wahanol iawn i gathod na phobl a chŵn, hyd yn oed gyda chathod eraill. Nid oes angen rhyngweithio cymdeithasol ar gathod i fod yn hapus yn seicolegol, felly gall gorfodi hyn arnynt fod yn ffynhonnell sylweddol o straen. Er mwyn cynnal aelwyd gytûn aml-breswlydd ac osgoi straen neu anaf, mae’n bwysig bod anghenion cath yn cael eu hystyried bob amser. Mae hyn yn cynnwys gwarchod cath rhag rhyngweithio cymdeithasol digroeso gan anifeiliaid anwes eraill a dysgu plant ifanc sut i ryngweithio ag anifeiliaid anwes yn ddiogel. Mae hefyd yn bwysig gallu adnabod arwyddion cynnar o straen mewn cathod a mynd ati’n rhagweithiol i’w monitro.

Gyda’r sector ailgartrefu dan bwysau parhaus, mae’n bwysig bod penderfyniadau ynghylch ailgartrefu yn seiliedig ar anghenion, profiadau a gofynion lles unigol pob cath. Gall rhoi cymorth ac arweiniad priodol i fabwysiadwyr ar gyflwyno cathod i gartrefi newydd ac aelodau presennol o’r aelwyd helpu mwy o gathod i ddod o hyd i gartrefi addas. Mae asesiad unigol o bob cath yn aml yn fwy effeithiol na dibynnu’n unig ar feini prawf ailgartrefu eang, gan gydnabod y gallai fod gan rai cathod ofynion penodol y mae’n bwysig eu bodloni.

Ymddygiad a straen

Mae llawer o gathod yng Nghymru wedi dangos arwyddion posibl o straen yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth bobl yn y tŷ



Yn dangos ofn tuag at sŵn



Yn cuddio o amgylch y tŷ am gyfnodau hir



Yn sgrechian/mewian



Yn ymddwyn yn ymosodol tuag at bobl yn fy nghartref



Yn pi-pi y tu allan i'w bocs baeddu/yn y tŷ



Ddim yn cyd-dynnu/ yn ymladd gyda fy nghathod eraill



Yn baeddu (gwneud pŵ) y tu allan i'w bocs baeddu/yn y tŷ



Yn ‘marcio’ y tu allan i'w bocs baeddu/yn y tŷ



Ddim yn cyd-dynnu/yn ymladd gydag anifeiliaid anwes eraill (dim cathod)




Mae **62%** o gathod yng Nghymru wedi dangos o leiaf un ymddygiad straen posibl yn ystod y 12 mis diwethaf (63% yn 2025)

Gall fod yn heriol i berchnogion ddadansoddi ymddygiad cathod, gan fod llawer o ymddygiadau y gallent eu hystyried yn broblemus yn gwbl normal i gathod. Mae hyn yn cynnwys crafu o amgylch y tŷ a neidio ar arwynebau uchel. Mae pethau’n cael eu cymhlethu ymhellach gan y ffaith bod rhai arwyddion o straen, fel damweiniau toiled, hefyd yn gallu bod yn arwyddion o broblemau meddygol. Yn aml, ymddygiad ymosodol yw’r ymateb olaf y bydd cathod yn troi ato, gyda llawer o gathod yn dangos arwyddion mwy cynnil o ofn, straen, anesmwythder neu wrthdaro cyn troi at ymddygiad ymosodol. Felly, mae’n destun pryder mai ymladd rhwng cathod yw’r achos mwyaf cyffredin o anaf i gathod Cymru o hyd.

Drwy ddeall ymddygiad cathod, arwyddion o straen a darparu adnoddau fel pyst crafu a thyrrau cathod neu silffoedd, gall perchnogion daro cydbwysedd rhwng caniatáu i’w cath fynegi ymddygiad iach arferol, gan ddiogelu eitemau cartref a’u pwyll eu hunain! Mae’n bwysig bod perchnogion yn gofyn am gyngor i helpu naill ai i ailystyried eu persbectif ar ymddygiad eu cathod, neu i ymyrryd yn gynnar ac atal problemau bach rhag mynd yn fwy, yn anoddach eu rheoli ac o bosibl yn niweidiol i berthnasoedd rhwng cathod a’u cymdeithion dynol.

Tân gwyllt

Gall tân gwyllt beri gofid mawr i bob anifail, gan gynnwys cathod. Mae’r cynnydd yn nifer yr adroddiadau am gathod sy’n ymateb i dân gwyllt a welwyd ledled y DU yn llai amlwg yng Nghymru. Wedi dweud hynny, dywed bron i ddwy ran o dair (**63%**) o berchnogion cathod Cymru fod tân gwyllt wedi effeithio ar eu cath (**61%** yn 2025).



Y tri ymddygiad mwyaf cyffredin y mae cathod Cymru yn eu dangos mewn ymateb i dân gwyllt:

Cuddio neu fynd yn dawedog



Yn ymddangos wedi dychryn



Ceisio dianc / rhedeg i ffwrdd



“Er ein bod yn cydnabod bod llawer o bobl yn mwynhau tân gwyllt fel rhan o ddathliadau, mae gwerthu tân gwyllt yn gyhoeddus yn achosi trallod sylweddol ac anrhagweladwy yn aml i gathod, anifeiliaid anwes eraill a bywyd gwyllt a phobl. Mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth y DU i gyfyngu ar werthu tân gwyllt i’r cyhoedd i dân gwyllt Categori F1 (fel ffyn gwreichion), gan annog pobl sy’n dymuno mwynhau tân gwyllt mwy i fynd i arddangosfeydd wedi’u trefnu yn lle hynny. Mae digwyddiadau wedi’u trefnu yn galluogi pobl i ddathlu’n gyfrifol, gan leihau’r defnydd sydyn ac annisgwyl o dân gwyllt sy’n gallu achosi ofn, straen a phryder i anifeiliaid ac aelodau eraill yn y gymuned.

“Mae Cats Protection hefyd yn cefnogi lleihau uchafswm lefelau sŵn tân gwyllt cymaint â phosibl er mwyn lleihau’r effaith ar gathod, anifeiliaid eraill ac, yn wir, llawer o bobl. Rydym eisiau gweld dull gweithredu cytbwys sy’n diogelu lles anifeiliaid tra’n dal i ganiatáu i gymunedau ddod at ei gilydd i nodi achlysuron arbennig.”



Charlotte Broad,
Rheolwr Eiriolaeth
ac Ymgyrchoedd,
Cats Protection



Cwmnïaeth

Pam mae pobl yn cadw cathod

Mae manteision lles bod yn berchen ar gath yn parhau i fod yn sbardun cryf i gael cath yng Nghymru.

Fel cwmni i mi/fy rheulu



(36% yn 2025)

Rwyf bob amser wedi cael cathod



(39% yn 2025)

Cefais fy magu gyda chathod ac felly roeddwn i eisiau cael un fy hun ar ôl i mi adael cartref



(26% yn 2025)

I fy helpu i deimlo dan lai o straen/gorbryder



(23% yn 2025)

I fy helpu i deimlo yn llai unig



(23% yn 2025)

Roedden nhw angen gofal/cael eu cymryd mewnn



(20% yn 2025)

Rydw i wastad wedi bod eisiau cathod, felly fe ges i un cyn gynted ag y gallwn i



(18% yn 2025)

Roedd fy mhlentyn/plant eisiau un



(15% yn 2025)

Roeddwn i eisiau anifail anwes ac yn meddwl y byddai cael cath yn haws na chael ci



(12% yn 2025))

Roedd fy mhartner eisiau un/eisoes yn berchen ar un



(11% yn 2025)

“Mae’r cathod yn rhan o’n teulu”

Perchennog benywaidd, 55 i 64, Cymru

“Mae cathod yn gwneud fy mywyd i’n gyflawn.”

Perchennog benywaidd, 45 i 54, Cymru

Unwaith eto, gyda’i gilydd, cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen yw’r prif resymau pam mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath (54%. 51% yn 2025, 52% yn 2024, 56% yn 2023).

Mae manteision perchnogaeth cathod o ran llesiant yn tyfu’n gyffredinol, gyda mwy a mwy o bobl yn dweud sut mae rhannu eu bywyd â chath yn ei wella. Yng Nghymru, mae hyn yn arbennig o wir am berchenogion benywaidd, pobl iau sy’n llai cefnog a’r rhai sydd ag anabledau neu gyflyrau iechyd corfforol. Mae bob amser yn bwysig cofio y dylai ein perthynas â chathod ddod â budd i’r ddwy ochr, a rhaid diwallu anghenion y gath bob amser.

Mae **92%** o berchnogion cathod Cymru yn cytuno eu bod yn ystyried eu cathod yn rhan o’r teulu.

Mae bod yn berchen ar gath yn rhan bwysig iawn o fywyd bob dydd a llesiant pobl Cymru.

Rydw i’n treulio amser yn anwesu fy nghath o leiaf unwaith y dydd



Mae cadw cath yn fy ngwneud yn hapus



Rwy’n siarad â’m cath yn rheolaidd



Mae cadw cath yn cael effaith gadarnhaol ar fy llesiant



Mae cadw cath yn cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd meddwl



Mae’n gas gen i adael fy nghath pan fydda i’n mynd i ffwrdd



Rydw i wrth fy modd yn sbwyllo fy nghath



Mae fy nghath yn rhoi rheswm i mi godi yn y bore



Rydw i’n meddwl llawer am fy nghath pan nad ydw i gyda hi



Rydw i’n siarad llawer am fy nghath



Rydw i’n rhoi anghenion fy nghath o flaen fy anghenion fy hun



O’i gymharu â’r DU gyfan, mae perchnogion o Gymru yn cytuno’n fwy cyson â’r datganiadau am berchnogaeth cathod sy’n ymwneud â llesiant.

Cathod, yn gryno

Sefyllfa'r genedl

- Perchnogaeth cathod:

	Mewn miliynau		% yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod	
	2026	2025	2026	2025
Cyfanswm y DU	11.7	10.2	27%	24%
Lloegr	10.2	8.5	28%	24%
Cymru	0.4	0.5	22%	24%
Yr Alban	0.7	0.7	21%	20%
Gogledd Iwerddon	0.2	0.2	22%	22%

- Mae pobl yng Nghymru yn berchen ar 460,000 o gathod
- Mae 61% o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar un gath, mae 39% yn berchen ar fwy nag un gath
- Mae'r perchnogion hynny sydd dan 35 oed yn fwy tebygol o fod wedi cael cath yn ddiweddar

Y farchnad gathod

- Mae'r gwastatáu o ran poblogrwydd cathod pedigri ledled y DU hefyd yn amlwg yng Nghymru

	Cyfanswm y boblogaeth cathod anwes yng Nghymru	Cyfanswm y boblogaeth cathod anwes yng Nghymru yn 2025	Cathod a berchnogwyd yn y 12 mis diwethaf
Brîd cymysg / domestig côt hir neu fyr	57%	57%	44%
Pedigri/brîd pur	30%	32%	40%
Traws-frîd (heb fod yn frîd cymysg)	6%	4%	9%
Ddim yn gwybod	7%	6%	8%

- Cafodd 31% o gathod yng Nghymru eu 'prynu', gan barhau â'r duedd gynyddol hon (29% yn 2025, 24% yn 2024, 25% yn 2023, 23% yn 2022, 21% yn 2021)
 - Mae'r ffigur hwn yn is na chyfartaledd y DU gyfan (38%)

Gofal milfeddygol

- Dywed 25% o berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi cael trafferth yn cael gafael ar filfeddyg
- Nid yw 10% o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg
- Dywed 54% o berchnogion Cymru nad ydyn nhw'n ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y bydden nhw'n dymuno
- Mae 73% o gathod yng Nghymru wedi cael eu microsglodynnu, sy'n golygu y gallai bron i 125,000 fod heb ficrosglodyn.
- Mae 81% o gathod yng Nghymru wedi cael eu hysbaddu (DU: 79%)
- Mae cyfran y cathod sydd wedi'u hyswirio yng Nghymru wedi aros yn sefydlog ar 46%
- Mae cyfran y cathod sydd wedi cael eu brechiadau cyfredol yng Nghymru wedi codi eto i 75% (72% yn 2025)

Cwmnïaeth

- Unwaith eto, cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen – gyda'i gilydd – yw'r prif resymau pam mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath (54%)
- O'i gymharu â'r DU gyfan, mae perchnogion yng Nghymru yn cytuno'n fwy cyson â'r datganiadau bod cathod yn fuddiol i les unigolion

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae llawer o berchnogion cathod yng Nghymru yn ymchwilio i anghenion cathod cyn ac ar ôl eu cael:
 - Fe wnaeth 33% lawer o ymchwil cyn cael eu cath
 - Mae 34% yn tueddu i wneud llawer o ymchwil am y ffordd orau o ofalu am eu cath
 - Mae 41% yn dweud eu bod yn gofyn am wybodaeth neu gyngor am eu cath o leiaf unwaith y mis
- Mae'r rhan fwyaf o gathod yng Nghymru yn cael mynd allan i'r awyr agored ond mae 39% bob amser yn aros dan do (33% yn 2025)
- Mae cyfran sylweddol o berchnogion cathod yng Nghymru yn defnyddio ategolion i fynd â'u cath allan
 - harnais cath: 11%
 - bacpac cath: 8%
- Mae 62% o gathod yng Nghymru wedi dangos o leiaf un ymddygiad straen posibl yn ystod y 12 mis diwethaf





Cynnwys

Y prif
ganfyddiadau

Sefyllfa'r genedl

Y farchnad gathod

Gofal milfeddygol

Gofal, lles ac
ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

Cathod, yn gryno

Beth nesaf?

Gwasanaethau

Beth nesaf?

Bydd Cats Protection yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2027, sy'n rhoi cyfle i ni feddwl am sut mae bywyd cathod wedi newid dros y 100 mlynedd diwethaf. Ond dylem edrych tua'r dyfodol hefyd. Mae'r byd rydym ni fel pobl a chathod yn byw ynddo yn newid yn gyflym, a'r her yw deall y newidiadau hynny a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio i gathod, nid yn eu herbyn.

Rydym ni yn Cats Protection yn ystyried beth mae poblogaeth iach a chytbwys o gathod yn ei olygu. I fi, mae'n golygu lles da i gathod ac atal problemau yn hytrach na delio â'u canlyniadau.

Mae ysbaddu'n dal yn bwysig ac mae angen i ni roi sylw i'r ffaith bod y cyfraddau'n gostwng. Rydym yn dal i argymhell bod cathod sydd â pherchennog yn cael eu hysbaddu erbyn eu bod yn bedwar mis oed, a bod cymorth ar gael i bobl sy'n ei chael hi'n anodd. Ond nid yw ysbaddu'n ddigon. Mae poblogaeth gytbwys o gathod hefyd yn gofyn am fridio cyfrifol, gofal iechyd ataliol, rheolaeth briodol ar gathod heb berchennog ac, yn anad dim, pobl sy'n deall beth sydd ei angen ar gathod.

Ond rhaid cael cydbwysedd. Dydyn ni ddim eisiau dyfodol lle mae bron yr holl gathod bridio wedi'u cyfyngu i boblogaeth beidigri gynyddol gul. Mae amrywiaeth yn bwysig, felly mae cadw'r gronfa enynnau yn eang ac yn wydn yn bwysig i iechyd y rhywogaeth yn y dyfodol.

Rhaid i ni hefyd fynd i'r afael ar frys â bridio cathod sydd â nodweddion eithafol. Efallai fod y nodweddion hyn yn edrych yn ciwt neu'n drawiadol mewn lluniau ar gyfryngau cymdeithasol, ond gallant achosi problemau iechyd a lles go iawn. Rhaid i ni herio'r tueddiadau hyn cyn i ffasiwn heddiw ddod yn broblem lles yfory. Mae gan fridwyr, perchenogion, milfeddygon, elusennau, y cyfryngau a dylanwadwyr ran i'w chwarae wrth siapio beth sy'n dderbyniol neu'n ddymunol.

Bydd y ffordd rydym yn gofalu am gathod bob dydd yn parhau i newid. Er enghraifft, yn hytrach na defnyddio dim ond un dull o reoli parasitiaid ar gyfer pob cath, mae'n debygol y bydd argymhellion yn y dyfodol yn adlewyrchu ffordd o fyw, risg ac ystyriaethau amgylcheddol unigol.

Mae technoleg yn faes diddorol arall. Gall offer clyfar fel teclynnau bwydo awtomatig, ffynhonnau dŵr a fflapiau cath sy'n defnyddio microsglodyn helpu pobl i ddiwallu anghenion eu cathod, ac rwy'n tybio bod llawer mwy i ddod. Ond nid yw cyfleustra bob amser yn gyfystyr â lles da. Er enghraifft, mae coleri sioc electronig (sydd diolch byth wedi'u gwahardd yng Nghymru) yn greulon ac nid oes lle iddynt wrth ofalu am gathod. Gall tracwyr fod yn ddefnyddiol, ond mae batris yn gallu diffygio a gallu dyfeisiau'n mynd ar goll. Does dim i guro microsglodyn.

Mae llawer o bobl bellach yn dibynnu ar gymunedau ar-lein, dylanwadwyr neu ddeallusrwydd artiffisial (AI). Dylid croesawu'r chwilfrydedd hwnnw, ond yr her yw sicrhau safon yr ymatebion. Gall siambrau adlais wneud i gyngor gwael ymddangos yn gredadwy os yw'n codi'n ddigon aml, er mai prin iawn yw'r dystiolaeth i'w gefnogi.

Rhaid i sefydliadau fel Cats Protection wneud mwy na rhoi gwybodaeth dda ar wefan a gobeithio y bydd pobl yn dod o hyd iddi. Mae angen i ni fod yn chwilfrydig am dechnoleg newydd ein hunain a gweithio gyda dylanwadwyr cyfrifol ac eraill sy'n gallu helpu i sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cyrraedd pobl.

Wrth i ni nesáu at ein canmlwyddiant, mae llawer i'w ddathlu. Ond y ffordd orau o ddathlu ein hanes yw defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i siapio'r hyn sy'n digwydd nesaf. Bydd technoleg a ffasiwn yn newid a bydd ein gwybodaeth yn parhau i ddatblygu. Mae angen i ni barhau i ofyn un cwestiwn syml: **beth mae hyn yn ei olygu i gathod?**

Os byddwn yn cadw'r cwestiwn hwnnw mewn cof bob dydd, yna does dim rheswm dros beidio â bod yn obeithiol am y 100 mlynedd nesaf.



**John May CVO OBE DL,
Prif Weithredwr,
Cats Protection**

Gwasanaethau

Cymorth gan Cats Protection

Mae Cats Protection yn cefnogi perchnogion cathod drwy amrywiaeth o wasanaethau, mentrau addysg, ymgyrchoedd a gwaith eiriolaeth sydd wedi'u dylunio i wella lles cathod a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Mae'r elusen yn monitro anghenion cathod a pherchnogion yn barhaus, gan ddefnyddio ymchwil fel ei *Hadroddiad CATS* blynyddol i helpu i lunio cymorth effeithiol.

Lifeline (cymorth i bobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig)

Mae Lifeline yn wasanaeth maethu arbenigol sy'n darparu gofal dros dro i gathod pobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig, gan helpu i gael gwared ar rwystyr mawr o ran ceisio diogelwch. Yn 2025, rhoddodd y gwasanaeth gymorth i 340 o berchnogion a gofalodd am 620 o gathod nes y gallent gael eu haduno â'u teuluoedd. **Mae rhagor o wybodaeth am Lifeline ar gael yma cats.org.uk/cp-lifeline** **Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig drwy nationaldahelpline.org.uk ffonio 0808 2000 247.**

Addysg

Mae Cats Protection yn darparu sgysiau, adnoddau ar-lein ac ymgyrchoedd wedi'u targedu i helpu perchnogion nawr ac yn y dyfodol i ddeall anghenion cathod yn well a gwella safonau lles. Drwy ei gwaith mewn ysgolion ac fel rhan o'r Bartneriaeth Addysg Anifeiliaid Anwes, mae'r elusen yn helpu i wneud addysg lles anifeiliaid yn hygyrch i blant ac oedolion ifanc ledled y DU. Gallwch ddarganfod mwy yn cats.org.uk/education

Ymgyrchu ac Eiriolaeth

Mae Cats Protection yn ymgyrchu dros newidiadau deddfwriaethol a pholisi sy'n gwella bywydau cathod ac yn cefnogi perchnogaeth gyfrifol. Mae ei waith eiriolaeth yn cynnwys hyrwyddo polisïau tai sy'n ystyriol o anifeiliaid anwes a galw am reoleiddio cryfach ar fridio cathod. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrchoedd eiriolaeth ar cats.org.uk/campaigning

Paws to Listen

Mae Paws to Listen yn wasanaeth cyfrinachol am ddim sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol ac arweiniad ymarferol i bobl y mae galar am gath neu golli cath yn effeithio arnynt. Mae rhagor o wybodaeth am Paws to Listen ar gael yn cats.org.uk/paws-to-listen

Gwarcheidwaid Cathod

Mae Cat Guardians yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n rhoi tawelwch meddwl i berchnogion drwy sicrhau y bydd eu cath yn cael gofal ac yn cael ei hailgartrefu os byddant yn marw cyn eu hanifail anwes. Mae rhagor o wybodaeth am Cat Guardians ar gael yn cats.org.uk/catguardians



Cynnwys

Y prif
ganfyddiadau

Sefyllfa'r genedl

Y farchnad gathod

Gofal milfeddygol

Gofal, lles ac
ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

Cathod, yn gryno

Beth nesaf?

Gwasanaethau

Gwneud bywyd yn well i gathod, oherwydd bod bywyd yn well gyda chathod



Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â stats@cats.org.uk neu ewch i cats.org.uk/stats

Mae Cats Protection yn elusen gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr), SC037711 (Yr Alban) ac wedi'i restru fel sefydliad Adran 167 gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

Swyddfa Gofrestredig: National Cat Centre, Chelwood Gate, Haywards Heath, Sussex, RH17 7TT

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Medi 2025

Diolch i chwaraewyr Postcode Lottery am gefnogi gwaith Cats Protection.

